Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

Adroddiad meithrin ar Cylch Meithrin Penrhosgarnedd

Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Martin Cray

Dyddiad yr arolygiad: 10 / 11 Chwefror 2010 (boreau)

Rhif y Contract: T/063/09N

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir

Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin Penrhosgarnedd

Cyfeiriad: Canolfan Penrhosgarnedd
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd

Côd Post: LL57 2NN

Ffôn: 07919437470

Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Susan Rowlands

Swydd: Arweinydd

Ynglŷn â'r arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

1.0 Cyd-destun y lleoliad

Cyd-destun lleoliad y feithrinfa
Mae'r lleoliad cyfrwng Cymraeg hwn wedi ei leoli ym Mhenrhosgarnedd, ger Bangor ac o fewn ardal sydd yn cael ei hystyried yn gymharol ffyniannus. Fodd bynnag, mae'r plant yn dod o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd amrywiol.

Caiff y lleoliad ei redeg gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac mae'n ddarparydd addysgol fel aelod o Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Gwynedd. Mae hefyd yn aelod o'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng dwy a hanner a phedair oed ac mae ar agor am bump bore'r wythnos ac ar brynhawn Dydd Iau. Allan o gyfanswm o 26 plentyn sydd wedi cofrestru i fynychu sesiynau gwahanol, mae 10 dan dair oed ac mae 16 wedi dathlu eu trydydd pen-blwydd. Nid oes yr un wedi cyrraedd eu pedair oed eto. O dan drefniadau'r Bartneriaeth leol, mae llefydd naw o'r plant tair oed yn gymwys i gael eu hariannu.

Mae'r lleoliad yn medru darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ond adeg yr arolygiad nid oedd unrhyw blant felly ar y gofrestr. Mae'n ddarparydd ar gyfer plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Saesneg yw'r iaith gyntaf a siaredir yng nghartrefi bron pob un o'r plant.

Cynhelir gweithgareddau mewn ystafell fawr yng Nghanolfan Penrhosgarnedd. Mae gan y lleoliad hefyd fynediad i dir glas a wyneb caled y tu allan.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd sydd â chymhwyster CACHE Lefel 3, ynghyd â dwy gymhorthydd, un ohonynt yn rhan amser.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Hydref 2009. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei arolygu gan Estyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad ar foreau'r 10fed a'r 11eg o Chwefror 2010.

2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus .

2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Maes dysgu	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2
Datblygiad mathemategol	2
Datblygiad yn y Gymraeg	Ddim yn berthnasol i'r arolygiad hwn
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad corfforol	2
Datblygiad creadigol	2

2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

Ansawdd yr addysg	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant	2
Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant	3
Ansawdd yr addysgu	2
Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau i rieni a gofalwyr	2
Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned	2
Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant	2
Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad	3
Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf	Dyma'r arolygiad cyntaf

3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed

3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol plant yn dda ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r holl blant wedi setlo'n dda ac yn mynychu'r lleoliad yn hapus.

Wrth iddynt ymwneud â'r gwahanol weithgareddau, mae'r plant i gyd yn barod i rannu adnoddau gydag eraill gan ddangos amynedd a chyfeillgarwch tuag at ei gilydd.

Mae medrau canolbwyntio y rhan fwyaf o blant wedi datblygu'n dda a medrant ddal ati hyd nes iddynt gyflawni eu tasgau yn llwyddiannus.

Mae pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r oedolion.

Mae ymwybyddiaeth pob un o'r plant o draddodiadau a dathliadau sy'n perthyn i Gymru yn datblygu'n dda. Mae bron pob un ohonynt yn dod o gefndir di Gymraeg ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w profiadau ieithyddol newydd.

Mae'r plant i gyd yn ymateb yn dda i'r profiadau amlddiwylliannol a ddarperir ar eu cyfer. Trwy eu gweithgareddau, dônt i ddeall fod diwylliant, ethnigrwydd a ffordd o fyw pobl yn gallu bod yn wahanol.

Mae bron pob un o'r plant yn derbyn cyfrifoldeb am dacluso ar eu holau.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Mae plant yn cyflawni safonau da yn natblygiad eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar y storïau a gyflwynir iddynt gan staff y lleoliad.

Maent yn ymdopi'n dda â'r Gymraeg fel prif iaith cyfathrebu'r lleoliad ac yn ymateb yn gadarnhaol iawn i gyfarwyddiadau a holi'r staff, gan arddangos meistrolaeth gynyddol o'r iaith.

Mae pob un o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac mae rhai yn troi o'u gwirfodd i'r ardal lyfrau i ymlacio a phori'n dawel trwyddynt. Mae pob plentyn yn adnabod eu henwau eu hunain mewn fformat ysgrifenedig ac mae rhai unigolion yn adnabod holl enwau eu cymheiriaid wrth ddosbarthu'r matiau byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gwneud marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau ac yn arddangos dealltwriaeth gynyddol o rai o swyddogaethau ysgrifennu, er enghraifft, ysgrifennu archeb yn 'Siop Bob Dim' y lleoliad.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig, ond mae lle i'r plant wneud mwy o ddefnydd annibynnol o'r ardal lyfrau.

3.3 Datblygiad mathemategol

Mae datblygiad mathemategol plant yn dda ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob un o'r plant yn mwynhau cyfrif a chanu rhigymau, ynghyd â chymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ymarferol fel gêmau cyfatebu, a didoli yn ôl lliw a maint, i ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth o rif. Dônt yn gynnar i fedru rhifo i 10 a thu hwnt ac mae rhai erbyn hyn yn adnabod rhifolion hyd at 10.

Mae'r plant i gyd yn adnabod y siapiau dau-ddimensiwn mwyaf cyffredin ac yn llwyddo i gymhwyso'u dealltwriaeth yn effeithiol mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Trwy chwarae strwythuredig gyda thywod a dŵr, mae gan yr holl blant ddealltwriaeth ddatblygol dda o gynhwysedd a mas. Mae anogaeth staff yn ystod y gweithgareddau yma yn hyrwyddo'r defnydd o dermau mathemategol gan y plant.

Mae ymwybyddiaeth yr holl blant o fathemateg arian yn datblygu'n dda wrth iddynt chwarae rôl yn siop y lleoliad.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig**.**

3.4 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Mae gan y plant wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r byd ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae pob un o'r plant yn gyfarwydd ag arsylwi ar y tywydd yn ddyddiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r math o ddillad sydd yn addas ar y pryd.

Mae'r rhan fwyaf yn dechrau deall cysyniad amser o fewn cyd-destun eu gweithgareddau dyddiol ac yn gwybod pa ddiwrnod o'r wythnos yw hi.

Maent yn adnabod gwahanol fathau o weithwyr, gan gynnwys y ddynes lolipop leol a'r adeiladwr a fu wrthi yn trwsio to'r Neuadd yn ddiweddar. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o reolau'r ffordd. Gwyddant am wahanol ddulliau o drafnidiaeth ac maent wedi cynnal arolwg traffig o'r hyn ddaw heibio'r lleoliad.

Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o wahanol ddefnyddiau ac wedi dysgu am y newidiadau gall ddigwydd mewn rhai ohonynt, er enghraifft, iâ yn ymdoddi.

Mae gan yr holl blant ymwybyddiaeth dda iawn o leoedd ar draws y byd ac o fwydydd gwahanol.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.5 Datblygiad corfforol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad corfforol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae rhan fwyaf o'r plant yn dod i ddefnyddio ystod o offer fel rholeri, brwsys paent, ysbodolau, pensiliau, creonau, sisyrnau a glud yn dda mewn amrywiaeth o weithgareddau. Dangosant gydlyniad llaw llygad da mewn gweithgareddau edafu, defnyddio morthwylion a hoelion, ac wrth iddynt daflu bagiau ffa at barasiwt yn yr awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn symud yn hyderus a diogel gyda rheolaeth a chydsymud cynyddol wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored. Caiff eu medrau echddygol bras eu datblygu ymhellach wrth iddynt wneud defnydd o amrywiaeth o offer megis sleid a theganau mawr ar lawr y neuadd.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

3.6 Datblygiad creadigol

Mae plant yn cyflawni safonau da yn eu datblygiad creadigol ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau profiadau chwarae rôl. Gwnânt hynny mewn cyd-destunau fel perchennog y 'Siop Bob Dim' ac mae hyn yn ennyn trafodaethau a sefyllfaoedd diddorol sydd yn ymestyn eu doniau creadigol.

Mae gan bron pob un o'r plant ddiddordeb mewn arbrofi a chreu gyda phaent. Maent yn adnabod enwau lliwiau a chânt bleser wrth eu cymysgu ar gyfer creu naws arbennig i'w paentiadau. Defnyddiant eu dwylo i argraffu ac fe lwyddwyd i greu dynion eira effeithiol, ynghyd â chyfanweithiau ar y cyd yn portreadu gwahanol gerbydau. Defnyddiwyd bocsys allan o gardfwrdd yn effeithiol i adeiladu tai fel rhan o'u gwaith ar y thema gyfredol, sef Cartrefi.

Mae'r plant i gyd yn dangos hoffter o chwarae amrywiaeth o offerynnau traw ac ar y cyfan maent yn llwyddo i gadw curiad da.

Mae bron pob un o'r plant yn symud yn dda ac yn efelychu'r symudiadau disgwyliedig wrth ddilyn tâp cân actol.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig, fodd bynnag, nid yw'r plant o hyd yn gwbl hyderus wrth ganu i gyfeiliant eu hofferynnau.

4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed

4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae gan y lleoliad nodau clir am werthoedd ac egwyddorion, ac fe gânt eu cyfathrebu'n dda. Llwyddir yn effeithiol i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol plant. Cânt eu dysgu i weithio'n dda gyda'i gilydd ac i fod yn gwrtais drwy'r amser. Canmolir gweithredoedd da yn rheolaidd ac fe ddisgwylir i blant fod yn falch o lwyddiannau ei gilydd.

Mae'r staff yn gweithio'n dda i sicrhau bod plant yn cael gafael gadarn ar y Gymraeg ac fe fanteisir ar amrywiaeth o weithgareddau sy'n dathlu traddodiadau a diwylliant Cymru yn effeithiol.

Caiff plant gyfleoedd da i ddysgu am ddathliadau Cristnogol fel Gŵyl y Geni a Diolchgarwch, ac fe adroddir gweddïau o ddiolch cyn cychwyn byrbrydau canol y bore.

Mae'r lleoliad yn darparu'n dda iawn ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o amrywiaeth ddiwylliannol. Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i ddysgu am wahanol bobloedd ar draws y byd, eu bywyd, arferion a'u dathliadau.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Mae'r nodweddion da i'r cynllunio ar gyfer dysgu plant yn gorbwyso'r diffygion.

Nodweddion da
Mae cynllunio'r lleoliad yn seiliedig ar ofynion y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru* ac mae'n sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag ei anghenion, yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Mae'r cynllunio tymhorol, sydd yn seiliedig ar gyfres o themâu, yn cynnig cydbwysedd yn y rhaglen ac ystyriaeth deilwng i chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen dros gyfnod o amser.

Caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r rhaglen waith ac fe delir sylw da iawn i gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth diwylliannol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio ar gyfer sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau caiff plant ddewis eu hun fel rhan o ddarpariaeth barhaus yn y gwahanol ardaloedd chwarae a gweithgareddau sydd ganddynt ffocws penodol o dan arweiniad oedolion.

Diffygion
Nid oes manylder digonol yn y cofnodi o'r hyn sydd yn dasgau ffocws.

Mae'r diffyg adolygu rheolaidd o'r gweithgareddau yn effeithio ar y gallu i adnabod y camau nesaf sydd angen yn y dysgu.

4.3 Ansawdd yr addysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r staff yn gyson yn y ffordd maent yn trafod plant. Llwyddant i sefydlu perthynas agos â hwy ac i greu awyrgylch dysgu positif a hapus lle mae plant yn teimlo'n ddiogel. Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir ar eu cyfer yn dda.

Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau addas ar gyfer dysgu plant ifanc ac mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r staff yn cyfathrebu'n dda gyda phlant yn ystod gweithgareddau grwpiau bychain ac mewn sesiynau torfol. Maent yn llwyddo'n dda i gadw at y Gymraeg fel cyfrwng ac maent yn trin y plant, sydd yn clywed braidd dim Cymraeg ar eu haelwydydd, mewn ffordd sensitif iawn.

Ceir ymyrraeth bwrpasol i herio syniadau plant ac i ddatblygu eu sgiliau dysgu yn effeithiol. Darperir cyfleoedd da iddynt ddilyn gweithgareddau o'u dewis eu hunain, yn ogystal â'r rhai hynny gaiff eu llywio gan oedolion.

Ceir perthynas waith dda gyda'r athrawes gyswllt sy'n cynrychioli Partneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Gwynedd, yn ogystal â Mudiad Ysgolion Meithrin sydd yn darparu Swyddog Datblygu Iaith.

Defnyddir yr ystod dda iawn o adnoddau sydd ar gael yn effeithiol ac fe drefnir bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i chwarae tu allan.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

Mae ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae gweithdrefnau asesu a chofnodi cynnydd plant y lleoliad yn effeithiol ac maent yn cynrychioli ffordd systematig o weithio.

Wedi i'r plant gychwyn yn y lleoliad, caiff proffiliau gwaelodlin 'Camau Cyntaf' eu cwblhau gan rieni ar gyfer eu plant, a rhodda rhain wybodaeth ddefnyddiol y gall staff ei defnyddio yn ystod dyddiau cynnar plant yn y lleoliad.

Mae asesu digymell a hefyd asesiadau cynlluniedig yn effeithiol iawn o ran adeiladu darlun clir o gyflawniadau plant ar draws y meysydd dysgu. Mae staff i gyd ynghlwm wrth y gwaith yma.

Mae polisi drws agored y lleoliad yn caniatáu i rieni a gofalwyr gyfleoedd da i drafod cynnydd eu plant yn anffurfiol cyn ac ar ôl y sesiynau dyddiol. Rhoddir cyfleoedd iddynt hefyd i fynychu trafodaethau ffurfiol ac i weld gwaith eu plant mewn boreau agored.

Mae gwaith plant yn cael ei ddanfon adref yn rheolaidd i'w ddathlu a darperir adroddiadau ysgrifenedig yn flynyddol i rieni ar gynnydd eu plant.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig.

4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Mae ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r llawlyfr a ddarperir ar gyfer rhieni a gofalwyr yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am y lleoliad, er enghraifft, y gweithdrefnau dyddiol a chrynodeb o rai o'r prif bolisïau sy'n cael eu gweithredu. Mae yna hysbysfwrdd hefyd wrth y fynedfa sydd yn cynnig gwybodaeth ychwanegol am ddigwyddiadau ac am brofiadau dysgu cyfredol y plant.

Mewn sgyrsiau anffurfiol rhwng yr arolygydd a'r rhieni cyfeiriwyd at y ffaith bod plant yn hapus iawn yn y lleoliad. Ategwyd y gwerthfawrogiad yma yn yr holiaduron cyn-arolygiad a ddychwelwyd ganddynt.

Mae yna gyfleoedd da i rieni a gofalwyr drafod materion yn ymwneud â'u plant wrth gyrraedd ac ymadael yn ddyddiol. Cânt hefyd aros am gyfnod byr gyda'u plant ar gychwyn y sesiwn os oes angen.

Derbynia'r lleoliad gefnogaeth dda oddi wrth rieni a ffrindiau ac fe gynhelir nifer o weithgareddau nawdd, boreau coffi a ffeiriau, pryd y codir symiau sylweddol ar gyfer prynu a gwella'r adnoddau.

Dros amser, mae'r lleoliad wedi gwneud darpariaeth dda fel y gall plant elwa o brofiadau amrywiaeth o ymwelwyr. Er enghraifft, fel rhan o'r gwaith diweddar ar y thema 'Teithio' cafwyd ymweliad gan y ddynes lolipop. Bu'r plant wrthi hefyd yn cynnal arolwg o'r traffig lleol. Mae eu gwaith cyfredol wedi rhoi cyfle da i blant wylio adeiladwyr wrth eu gwaith.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig, ond nid yw'r llawlyfr a ddosberthir i rieni yn cynnwys manylion am staff y lleoliad a meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Mae'r lleoliad yn cyfrannu'n dda at les plant heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da
Mae'r lleoliad wedi mabwysiadu nifer o bolisïau a gweithdrefnau addas sydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at hyrwyddo lles y plant. Mae'n sefydliad croesawgar iawn ac mae'r plant yn hapus a diogel ynddo. Mae'r staff yn ofalgar iawn ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys. O ganlyniad mae'r plant yn barod iawn i droi atynt am gymorth.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer derbyn a rhyddhau plant i'w rhieni neu ofalwyr ar ddechrau a diwedd sesiynau. Cedwir drysau ar glo gydol yr amser.

Caiff damweiniau neu ddigwyddiadau eu cofnodi'n briodol. Mae ymarferion tân ac asesiadau risg hefyd yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion.

Mae plant yn bwyta'n iach adeg eu byrbrydau ac at ei gilydd, darperir cyfleoedd da iddynt chwarae yn yr awyr agored.

Mae adnoddau dysgu mewn cyflwr da ac maent o fewn cyrraedd hwylus a diogel i'r plant.

Mae staff yn gyfarwydd â gweithdrefnau Amddiffyn Plant ac wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol.

Diffygion
Nid oes diffygion pwysig, fodd bynnag, er bod y mannau cyswllt a'r asiantaethau priodol ynghylch materion yn ymwneud ag amddiffyn plant wedi eu nodi'n glir o fewn Polisi Amddiffyn Plant y lleoliad, byddai'n arfer da hefyd i osod yr wybodaeth ar hysbysfwrdd y lleoliad.

4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

Mae'r nodweddion da i ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad yn gorbwyso'r diffygion.

Nodweddion da
Mae'r arweinydd yn brofiadol iawn ac fe lwyddir i gydlynu'n effeithiol ymdrechion pawb. Rhennir cyfrifoldebau yn dda ac fe geir cydweithrediad da rhwng staff a'r Pwyllgor Rheoli sydd yn cyfarfod fel arfer adeg y sesiynau boreol er sicrhau rhwyddineb i rieni fedru mynychu.

Caiff gwerthusiadau staff eu cynnal yn ôl y gofynion ac mae'r staff yn cefnogi cyrsiau hyfforddiant er gwella'u medrau ac i ddiweddaru ar wybodaeth ym maes addysg cyn oed gorfodol.

Mae'r staff yn werthfawrogol o'r gefnogaeth a roddir iddynt gan athrawes gyswllt Partneriaeth Gwynedd a'r swyddog datblygu iaith sydd yn gweithredu ar ran Mudiad Ysgolion Meithrin.

Diffygion
Nid yw'r gweithdrefnau hunan-arfarnu yn ffocysu'n ddigonol ar adnabod cryfderau'r lleoliad a chynllunio ar gyfer yr hyn sydd angen gwneud i wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Dyma'r tro cyntaf i'r lleoliad gael ei arolygu gan Estyn.

5.0 Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad: A1: Barhau i hyrwyddo'r safonau a gyflawnir gan blant. A2: Fireinio'r cynllunio ar gyfer dysgu. A3: Ddatblygu ymhellach ei weithdrefnau hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant .

Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.